YSGOL GYNRADD GYMRAEG CWMLLYNFELL
CWMLLYNFELL WELSH PRIMARY SCHOOL

Pennaeth/Headteacher
Mrs Lynne M. Brier

Ffôn/Tel: (01639) 830630

Heol y Bryn
Cwmllynfell
ABERTAWE
SA9 2FL

Gwefan/Website: **www.yggd-cwmllynfell.j2bloggy.com**
e.bost/e.mail: **yggcwmllynfell@npt.school**

22 Hydref 2020

Annwyl Rhieni,

Gobeithio eich bod chi'n cadw'n iach ac yn ddiogel yn ystod cyfnod anodd iawn i bawb. Hoffwn eich diolch am eich cefnogaeth a chydweithrediad ers dechrau'r tymor, wrth i ni frwydro yn erbyn Covid-19. Hyd at hyn, rydym wedi llwyddo i gadw'r ysgol ar agor ac mae ymrwymiad y disgyblion tuag at iechyd eu hunain yn rhagorol. Diolch i chi hefyd am fod mor onest a synhwyrol wrth ein hysbysebu ynglŷn â symptomau o fewn eich cartrefi.

Bydd yr ysgol yn torri lan am hanner tymor dydd Gwener yma, Hydref 23ain, **am un wythnos yn unig**. Yn ystod hanner tymor bydd yr adeiladwyr yn dechrau gweithio ar yr estyniad newydd a bydd y gwaith yn parhau am flwyddyn. Bydd canolfan newydd ar gyfer plant bach yn cael ei adeiladu ar y buarth o flaen yr ysgol a bydd ystafell ddosbarth newydd yn cael ei adeiladu drws nesaf i ystafell ddosbarth Blwyddyn 3 a 4. Ni fydd yr adeiladwyr yn cael mynediad i'r ysgol ac ni fyddant yn cymysgu gyda'r plant o gwbl. Er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn derbyn digon o gyfleoedd i chwarae, bydd rhai newidiadau i'r amserlen ar gyfer amser chwarae ac amser cinio yn hanfodol. Ni fydd hyn yn amharu o gwbl ar addysg y plant. Hefyd, gofynnwn yn garedig i chi ddarparu pâr o "wellies" i'w cadw yn yr ysgol er mwyn ein galluogi i wneud mwy o ddefnydd o'r cae.

Gan fod yr adeiladwyr yn gweithio mewn dau wahanol ardal o fewn y safle, bydd rhaid i ni newid ein trefniadau ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd. O hyn ymlaen, bydd plant Blwyddyn 3 a 4 yn defnyddio'r brif fynedfa (y drws i'r swyddfa) ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd. Bydd plant y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio'r drws arferol, a bydd plant Blwyddyn 5 a 6 yn defnyddio'r drws arferol. Yn anffodus, ni fydd digon o le i rieni ar yr iard ar ddiwedd y dydd oherwydd rheolau pellter cymdeithasol. Felly, byddwn yn dychwelyd i'n cynlluniau gwreiddiol, sef y staff yn dod a'ch plant mas i'r maes parcio i'ch cwrdd â chi.

Mae hyn wedi bod yn hanner tymor anodd i'r plant. Nid ydynt wedi bod ar wibdeithiau ac nid ydym wedi bod mewn sefyllfa i drefnu ymwelwyr i ddod i mewn i'r ysgol i wneud gweithgareddau arbennig gyda nhw. Ar ben hyn, nid ydym wedi cynnal gwasanaeth Cynhaeaf fel arfer. Yn symud ymlaen, mae'n bwysig ein bod ni i gyd yn parhau i edrych ar ôl ein hiechyd, wrth gadw at y rheolau yn ystod cyfnod clo. Wrth lwc, byddwn yn llwyddo i gadw cymuned yr ysgol yn ddiogel ar gyfer gweddill y tymor, a byddwn yn gallu dechrau cyflwyno mwy o weithgareddau hyfryd i'r plant.

Diolch i chi unwaith eto am eich cefnogaeth ers dechrau'r tymor. Mwynhewch hanner tymor a chadwch yn ddiogel.

Yn gywir,

L.M. Brier

YSGOL GYNRADD GYMRAEG CWMLLYNFELL
CWMLLYNFELL WELSH PRIMARY SCHOOL

Pennaeth/Headteacher
Mrs Lynne M. Brier

***Ffôn/Tel:* (01639) 830630**

Heol y Bryn
Cwmllynfell
ABERTAWE
SA9 2FL

***Gwefan/Website:* https://yggd-cwmllynfell.j2bloggy.com**
***e.bost/e.mail:* yggcwmllynfell@npt.school**

22 October 2020

Dear parents

We hope that you are keeping healthy and safe during a very difficult time for everyone. I would like to thank you for your support and co-operation since the beginning of term, as we fought Covid-19. To date, we have been able to keep the school open and the pupils' commitment to their own health is outstanding. Thank you also for being so honest and sensible when advertising us about symptoms within your homes.

The school will be breaking up for half term this Friday, October 23rd, **for one week only**. During half term the builders will start work on the new extension and work will continue for a year. A new center for toddlers will be built on the yard in front of the school and a new classroom will be built next to the Year 3 and 4 classroom. The builders will not have access to the school and they won't be mixing with the children at all. In order to ensure that pupils receive sufficient play opportunities, some changes to the playtime and lunchtime timetable will be essential. This will have no effect on the children's education. Also, we kindly ask you to provide a pair of wellies to keep in school to enable us to make more use of the field.

As the builders will work in two different areas within the site, we will need to change our arrangements at the beginning and end of the school day. Year 3 and 4 children will now use the main entrance (the door to the office) at the beginning and end of the day. Foundation Phase children will use the usual door, and Year 5 and 6 children will use the usual door. Unfortunately, there will not be enough space for parents on the yard at the end of the day due to social distance rules. Therefore, we will return to our original plans of staff bringing your children out to the car park to meet you.

This has been a difficult half term for the children. They have not been on outings and we have not been in a position to arrange visitors to come into school to do special activities with them. In addition, we have not been able to hold our usual Harvest service. Going forward, it is important that we all continue to look after our health, while adhering to the rules during lock-down. With luck, we will be able to keep the school community safe for the rest of the term, and we will be able to start introducing more fun activities to the children.

Thank you once again for your support since the beginning term. Enjoy half term and stay safe.

Yours sincerely,

L.M. Brier